# Pasio'r Bil Cam-drin Domestig: Briffiad Cymorth i Ferched Cymru

**Cyflwyniad**

Ar 29 Ebrill 2021, derbyniodd y Bil Cam-drin Domestig Gydsyniad Brenhinol, yn dilyn proses maith a ddechreuodd dros bedair blynedd yn ôl, a bellach mae gennym ni'r Ddeddf Cam-drin Domestig. Rydym ni'n croesawu pasio'r Bil yn fawr ynghyd â nifer o ddiwygiadau a basiwyd yn y darlleniad olaf yn Nhŷ'r Cyffredin.

**Persbectif Cymreig**

Mae gan Gymru ei deddfwriaeth ei hun ar ffurf Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Mae dyletswyddau'n bodoli yng Nghymru eisoes ar gyrff cyhoeddus datganoledig i atal, diogelu a chefnogi. Ond mae'r Ddeddf Cam-drin Domestig yn cwmpasu Cymru a Lloegr ac yn effeithio ar rai meysydd sydd heb eu datganoli, yn benodol cyfiawnder troseddol.

Blaenoriaeth allweddol i ni drwy gydol datblygiad y Ddeddf Cam-drin Domestig fu cydweddu â deddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru a chydnabyddiaeth fod rhaid i gynnwys y Ddeddf fod o fudd i oroeswyr yng Nghymru. Rydym yn croesawu'r diffiniad statudol o gam-drin domestig, ond at ddibenion briffiadau Cymru byddwn yn parhau i ddefnyddio diffiniad y CU o VAWG i gyd-fynd â chydnabyddiaeth Deddf VAWDASV (Cymru) o bob math o drais yn erbyn menywod a merched. Bu ASau a gwasanaethau arbenigol Cymru yn pwysleisio drwy gydol y trafodaethau fod gan Gymru ddeddfwriaeth eisoes a bod rhaid i'r Ddeddf Cam-drin Domestig newydd ei hategu yn hytrach na'i gwrth-ddweud.

Gyda phasio'r Bil yn ei ffurf derfynol nid ydym yn rhagweld cymhlethdodau sylweddol rhwng y ddwy Ddeddf, ond byddwn yn parhau i gynrychioli goroeswyr a gwasanaethau arbenigol Cymru drwy gydol y cyfnod ymgynghori a chyflwyno'r canllawiau statudol.

**Elfennau cadarnhaol y Ddeddf**

Trwy gydol cyfnod datblygu'r Ddeddf Cam-drin Domestig cafwyd sawl cyfle i ddylanwadu ar newid. Manteisiodd goroeswyr, cyrff arbenigol ac ymgyrchwyr llawr gwlad i'r eithaf ar y cyfleoedd hyn ac o ganlyniad, cafwyd nifer o ychwanegiadau nodedig i'r Ddeddf, sy'n golygu ei bod yn wahanol iawn i'r drafft gwreiddiol.

### Enillion allweddol:

- *Cryfhau'r rheolau ar ymddygiad rheoli neu gymhellol.*
  - Bydd y Ddeddf Cam-drin Domestig yn sicrhau na fydd yn rhaid i gyflawnwyr a dioddefwyr cam-drin fod yn cyd-fyw bellach er mwyn i ymddygiad gael ei

ystyried yn rheolaeth gymhellol. Mae'r newid yn dilyn adolygiad y llywodraeth a amlygodd bod y rheini sy'n gadael cynbartneriaid sy'n cam-drin yn aml yn wynebu ymddygiad rheoli neu gymhellol parhaus neu gynyddol ar ôl gwahanu.

- *Troseddoli bygythiadau i rannu delweddau personol heb gydsyniad.*
  - Mae'r ddeddfwriaeth wreiddiol ynghylch cam-drin ar sail delweddau personol (a elwir yn aml yn 'porn dial') wedi'i hehangu i gynnwys bygythiadau i ddatgelu delweddau personol â'r bwriad o achosi gofid.
- *Dileu "amddiffyniad rhyw garw" yn y llys*.
  - Yn dechnegol, ni ddylid bod wedi caniatáu'r 'amddiffyniad rhyw garw' yn y llys hyd yn oed cyn pasio'r Bil yn ddeddf. Mae cynsail cyfreithiol yn dweud na all unigolyn gydsynio i niwed corfforol difrifol. Fodd bynnag mae profiadau goroeswyr a theuluoedd yn dangos y bu Gwasanaeth Erlyn y Goron yn anwybyddu'r cynsail cyfreithiol hwn ac yn penderfynu gollwng yn hytrach nac erlyn achosion ar y sail hon. Os caiff ei orfodi'n gywir mae croeso mawr i'r eglurhad hwn sy'n gwrthod yr amddiffyniad.
- *Gwneud llindagu nad yw'n angheuol yn drosedd ar ei ben ei hun.*
  - Bellach gellir cosbi llindagu nad yw'n angheuol gyda hyd at bum mlynedd o garchar.
- *Cynnydd ar sicrhau nad chaiff manylion dioddefwyr eu rhannu gyda rheolaeth fewnfudo*.
  - Er nad yw'r Ddeddf Cam-drin Domestig yn mynd yn ddigon pell drwy gynnig gwarchodaeth gyfartal i fenywod sy'n fudwyr, mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud ar sicrhau na chaiff manylion dioddefwyr eu rhannu gyda rheolaeth fewnfudo. Bydd hyn yn chwalu un o'r rhwystrau niferus y mae menywod sy'n fudwyr yn eu hwynebu wrth ddatgelu cam-drin a cheisio cymorth.
- *Cydnabod plant yn ddioddefwyr cam-drin domestig*.
  - Mae'r Ddeddf Cam-drin Domestig bellach yn cydnabod y caiff plentyn sy'n gweld, clywed neu brofi effeithiau cam-drin domestig ac sy'n perthyn i'r sawl sy'n cael ei cham-drin neu'r cyflawnwr hefyd ei ystyried yn ddioddefwr cam-drin domestig. Ein gobaith yw y bydd hyn yn arwain at well opsiynau cymorth i blant ac ymateb cynharach i leihau trawma pellach.
- *Gwahardd croesholi a mynediad at fesurau arbennig ar draws y system llysoedd sifil.*
  - Mae'r Ddeddf yn gwella mynediad at fesurau arbennig i oroeswyr, yn enwedig mewn lleoliadau llys teuluol a gwahardd croesholi uniongyrchol sy'n cynnig gwell amddiffyniad yn y llysoedd sifil a theuluol.

Mae'r Ddeddf Cam-drin Domestig yn gyfle gwirioneddol i gael newid pwysig yn yr ymateb cenedlaethol i gam-drin domestig a mathau eraill o drais yn erbyn menywod a merched (VAWG). Dim ond drwy wrando ar arbenigedd goroeswyr a'r sector arbenigol ehangach oedd hyn yn bosibl a rhaid i'r ymgysylltu hwn barhau i weithredu'r mesurau blaengar hyn.


**Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE**
**Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |**
**Email: info@welshwomensaid.org.uk | Web: www.welshwomensaid.org.uk**
**Registered Charity Number: 1140962**
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae'r newidiadau pwysig i'w gweld ar Daflen Ffeithiau Deddf Cam-drin Domestig y Swyddfa Gartref.

**Beth yw diffygion y Ddeddf?**

Rydym serch hynny'n dal o'r farn nad yw'r Ddeddf Cam-drin Domestig yn diogelu ac yn cefnogi pob goroeswr yn llawn ac felly nad yw'n ddarn mor arwyddocaol o ddeddfwriaeth ag y gallai fod. Er gwaethaf ymdrechion yn Nhŷ'r Arglwyddi, cefnogaeth nifer o ASau ac ymgyrchu diflino gan wasanaethau arbenigol a goroeswyr, gwrthodwyd y gwelliannau i sicrhau amddiffyniad a chefnogaeth i fenywod sy'n fudwyr. Mae'r cyfle hwn a gollwyd i greu llwybrau at ddiogelwch i bob goroeswr a chydymffurfio'n llawn â Chonfensiwn Istanbul yn ein tristau'n fawr[1]. Mae gwaith sylweddol ar ôl i'w wneud hefyd i sicrhau nad yw'r llysoedd teuluol yn parhau i achosi niwed a pheri trawma ychwanegol i ddioddefwyr cam-drin.

**Yr hyn y byddwn yn parhau i ymgyrchu drosto:**

- *Cefnogaeth gyfartal i fenywod sy'n fudwyr nad oes cronfeydd cyhoeddus ar gael iddynt*.
  - Mae'r Ddeddf Cam-drin Domestig wedi methu â chyflawni amddiffyniad a chefnogaeth gyfartal i fenywod sy'n fudwyr, er gwaethaf ymgyrchu parhaus gan oroeswyr, gan ac ar ran gwasanaethau a'r sector arbenigol ehangach. Cyflwynodd Southall Black Sisters, yr ymgyrch Step Up Migrant Women dan arweiniad Gwasanaeth Hawliau Menywod America Ladin a Chlymblaid End Violence Against Women gyfres o welliannau a gefnogwyd yn eang gan ASau, Arglwyddi a'r sector arbenigol. Er bod Tŷ'r Arglwyddi wedi cyflwyno sawl gwelliant allweddol fe'u gwrthodwyd pan ddychwelodd y Bil i Dŷ'r Cyffredin am y tro olaf.
- *Y Llys Teuluol*.
  - Bu ymgyrchwyr yn ymdrechu'n hynod o galed i basio gwelliannau ar ddileu'r rhagdybiaeth o gyswllt mewn achosion lle mae'r plant mewn perygl o niwed drwy gam-drin domestig ac atal cyswllt heb oruchwyliaeth i riant sy'n aros am brawf, neu ar fechnïaeth am drosedd yn ymwneud â cham-drin domestig, ond gwrthwynebwyd hyn. Er bod rhai mesurau arbennig wedi'u cynnwys i oroeswyr mewn lleoliadau llys teuluol, ynghyd â gwaharddiad ar groesholi uniongyrchol sy'n cynnig peth amddiffyniad yn y llys, does dim digon wedi'i wneud i sicrhau amddiffyniad llawn neu herio'r 'diwylliant o blaid cyswllt' presennol. Ceir corff sylweddol o dystiolaeth sy'n dangos y niwed i blant, pobl ifanc a'r rhiant/gofalwr nad yw'n cam-drin (cam-drin domestig) gan y system cyfiawnder teuluol. [2]

---

[1] Confensiwn Cyngor Ewrop ar Atal a Brwydro Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig

[2] https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2019/09/WWA-response-to-MOJ-inquiry-into-family-courts.pdf



Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE
Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |
Email: info@welshwomensaid.org.uk | Web: www.welshwomensaid.org.uk
Registered Charity Number: 1140962

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Y Camau Nesaf**
Bydd Cymorth i Ferched Cymru yn monitro, craffu ac ymgysylltu â phrosesau cyflwyno'r Ddeddf.

*Strategaethau:*
Mae Llywodraeth y DU ar hyn o bryd yn ystyried cynhyrchu strategaeth VAWG a cham-drin domestig, er gwaethaf argymhellion gan y sector na ddylid eu gosod mewn seilo. Mae hyn hefyd yn digwydd ar adeg pan fo Llywodraeth Cymru'n gweithio ar eu Strategaeth VAWDASV Genedlaethol newydd. Mae'r angen am synergedd a chydweddu wedi'i fynegi i'r ddau dîm llywodraethol ac mae Cymorth i Ferched Cymru yn cysylltu â'r ddau i ddarparu mewnbwn sy'n cyd-fynd ar draws yr holl sector VAWG a goroeswyr yng Nghymru. Y disgwyliad ar hyn o bryd yw y caiff y strategaeth VAWG ei chyhoeddi yn yr 'haf'. Mae'r strategaeth cam-drin domestig tua 6-9 wythnos ar ôl hynny.

*Canllawiau Strategol:*
Mae Llywodraeth y DU wedi bod yn ymgynghori ar ddatblygu canllawiau statudol ac mae Cymorth i Ferched Cymru wedi darparu adborth ysgrifenedig ar y fersiynau drafft. Yn debyg i'r strategaethau, bydd yr angen i gydlynu a deall sut y gellir hwyluso dyletswyddau datganoledig a heb eu datganoli ar draws gwaith amlasiantaethol yn hanfodol i sicrhau bod y canllawiau'n galluogi gweithrediad effeithiol yng Nghymru.

*Buddsoddi teg:*
Er mwyn sicrhau bod y Ddeddf yn cyflawni ei huchelgais, bydd angen buddsoddiad cynaliadwy i gefnogi ei chyflwyniad. Bydd cyllido gwasanaethau arbenigol yn hanfodol yn hyn o beth, ac fel y nodwyd yn Time to Act on Sustainability, bydd angen ymagwedd gydweithredol ar gyfer model cyllido cynaliadwy ar draws ffrydiau cyllido datganoledig a heb eu datganoli. Yn hanfodol, rhaid i fuddsoddiad cynyddol gynnwys codiadau cyfatebol yn setliad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cyfle teg i weithredu'r Ddeddf yng Nghymru.

**Casgliad**
Fel nodwyd yn flaenorol, ar y cyfan rydym yn croesawu'r Ddeddf Cam-drin Domestig a'r newidiadau cadarnhaol y gallai eu cyflwyno i ddioddefwyr yng Nghymru. Roeddem ni'n falch i fod yn rhan o ddatblygu'r Bil o'r dechrau a byddwn yn parhau i fonitro ac ymgysylltu i sicrhau ei gweithrediad i warantu'r budd gorau i oroeswyr yng Nghymru. Bydd y gwaith i sicrhau diogelwch pob goroeswr yn parhau.

---

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Jordan Brewer, Swyddog Polisi drwy ebost:
JordanBrewer@WelshWomensAid.org.uk


Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE
Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |
Email: info@welshwomensaid.org.uk | Web: www.welshwomensaid.org.uk
Registered Charity Number: 1140962
Llywodraeth Cymru
Welsh Government